***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, RHAN 4 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 06 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

ATODLEN 2

EITHRIADAU I ADRAN 7

## RHAN 4

TENANTIAETHAU A THRWYDDEDAU Y MAE RHEOLAU ARBENNIG YN GYMWYS IDDYNT: DIGARTREFEDD

11 Nid yw tenantiaeth neu drwydded o fewn adran 7, ond a wneir gydag unigolyn gan awdurdod tai lleol oherwydd swyddogaethau'r awdurdod o dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7) (digartrefedd), yn gontract meddiannaeth oni bai bod yr awdurdod yn fodlon bod ganddo ddyletswydd tuag at yr unigolyn o dan adran 75(1) o'r Ddeddf honno (dyletswydd i sicrhau bod llety addas ar gael).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 2 para. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** Atod. 2 para. 11 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

12 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo awdurdod tai lleol, yn unol ag unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau darparu tai i'r digartref, yn gwneud trefniadau â landlord perthnasol ar gyfer darparu llety **[**[F1], ond nid yw'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â thrwydded o'r math a ddisgrifir ym mharagraff 7(3)(l)**]**.

(2) Nid yw tenantiaeth neu drwydded sydd o fewn adran 7, ond a wneir â landlord perthnasol yn unol â'r trefniadau, yn gontract meddiannaeth hyd nes yn union ar ôl diwedd y cyfnod hysbysu.

(3) Nid yw is-baragraff (2) yn gymwys os yw'r landlord, cyn diwedd y cyfnod hysbysu, yn rhoi hysbysiad i'r person y gwneir y denantiaeth neu'r drwydded ag ef ei bod yn gontract meddiannaeth.

(4) Y cyfnod hysbysu yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ag—

(a) y diwrnod y cafodd y person hwnnw ei hysbysu—

(i) o ganlyniad asesiad yr awdurdod o dan adran 62 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7) neu o benderfyniad yr awdurdod o dan adran 80(5) o'r Ddeddf honno, neu (yn ôl y digwydd)

(ii) o benderfyniad yr awdurdod o dan adran 184(3) neu 198(5) o Ddeddf Tai 1996 (p. 52), neu

(b) os oes—

(i) adolygiad o'r penderfyniad hwnnw o dan adran 85 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 neu apêl i'r llys sirol o dan adran 88 o'r Ddeddf honno, neu (yn ôl y digwydd)

(ii) adolygiad o'r penderfyniad hwnnw o dan adran 202 o Ddeddf Tai 1996 neu apêl i'r llys o dan adran 204 o'r Ddeddf honno,

y diwrnod yr hysbysir y person hwnnw o ganlyniad yr asesiad neu o benderfyniad yr adolygiad, neu'r diwrnod y penderfynir yn derfynol ar yr apêl.

(5) Yn y paragraff hwn—

ystyr "awdurdod tai lleol" ("*local housing authority*") yw—

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, RHAN 4 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 06 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(a) mewn perthynas â Chymru, cyngor sir ar gyfer ardal yng Nghymru neu gyngor bwrdeistref sirol, a

(b) mewn perthynas â Lloegr, cyngor dosbarth, cyngor bwrdeistref yn Llundain, Cyngor Cyffredin Dinas Llundain neu Gyngor Ynysoedd Sili;

ystyr "landlord perthnasol" ("*relevant landlord*") yw—

(a) landlord cymunedol sy'n landlord cymdeithasol cofrestredig neu'n ddarparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig, neu

(b) landlord preifat;

ystyr "swyddogaethau darparu tai i'r digartref" ("*homelessness housing functions*") yw—

(a) mewn perthynas ag awdurdod tai lleol ar gyfer ardal yng Nghymru, ei swyddogaethau o dan adrannau 68, 73, 75, 82 ac 88(5) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, a

(b) mewn perthynas ag awdurdod tai lleol ar gyfer ardal yn Lloegr, ei swyddogaethau o dan adrannau 188, 190, 200 a 204(4) o Ddeddf Tai 1996.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Atod. 2 para. 12(1) wedi eu mewnosod (30.11.2023) gan Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 (Diwygio) 2023 (O.S. 2023/1277), rhlau. 1(1), **2(2)(b)**

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Atod. 2 para. 12 wedi ei addasu (1.12.2022) gan Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Arbed a Darpariaethau Trosiannol) 2022 (O.S. 2022/1172), rhlau. 1(2), **16** (ynghyd â rhl. 19)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 2 para. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I4** Atod. 2 para. 12 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, RHAN 4 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 06 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

– s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
– s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
– s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
– s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5